**Sesiwn 2000-2001 Rhif 50**

# PAPURAU BUSNES

## DYDD IAU, 8 CHWEFROR 2001

## RHAN 1 – ADRAN A

## AGENDA

**Bydd y Cyfarfod yn dechrau am 9.05am**

**Cwestiynau ar Gyllid i Edwina Hart, y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau** (15 munud)
Mae rhestr o'r Cwestiynau Llafar ar y Fewnrwyd (a Gwe'r Siambr)

**Cwestiynau i Mike German, y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd** (15 munud)
Mae rhestr o'r Cwestiynau Llafar ar y Fewnrwyd (a Gwe'r Siambr)

**Datganiad ar y Strategaeth Datblygu Economaidd Genedlaethol**

**Dadl ar Adroddiad y Pwyllgor Datblygu Economaidd ar Gymorth i Fusnesau**

Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:

a. yn croesawu Adroddiad y Pwyllgor Datblygu Economaidd ar Gymorth i Fusnesau (a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 31 Ionawr 2001) fel cyfraniad pwysig i sicrhau fframwaith effeithiol ar gyfer rhoi help a chymorth i annog busnesau Cymru i dyfu ac ar gyfer sicrhau datblygiad economaidd cynaliadwy ym mhob rhan o Gymru.

b. yn cytuno y dylai'r Weinyddiaeth yn awr yngynghori'n llawn â byd busnes, fel sy'n ofyniad yn adran 115 o Ddeddf Llywodraeth Cymru, ac ymgynghgori'n llawn â'r holl bartïon cyfrannog;

c. yn annog pawb sy'n ymwneud â chymorth i funesau, y sawl sy'n ei roi ac yn ei gael, i gyfrannu i'r broses yngynghori;

**Dadl ar Ddarlledu a Chyfathrebu**
Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:

- yn croesawu'r ymgynghori sy'n dilyn cyhoeddi'r Papur Gwyn gan Lywodraeth Prydain, 'A new future for communications'. Mae copïau ohono ar gael ar y rhyngrwyd yn www. communicationswhitepaper.gov.uk; ac
- yn cymeradwyo ymateb Cabinet y Cynulliad Cenedlaethol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau'r Cynulliad ar 1 Chwefror 2001.

***Mae'r gwelliannau canlynol wedi eu cyflwyno:***

Yn unol â'r canllawiau ar Grwpio, Dewis a Gwrthod Gwelliannau, mae'r Llywydd wedi penderfynu grwpio'r gwelliannau fel a ganlyn at ddibenion trafodaeth - ond bydd y pleidleisiau yn cael eu cymryd yn unigol.

(1)

(2)+(3)+(4)

**1. William Graham (Dwyrain De Cymru);**

Ychwanegu ar ôl pwynt bwled un:

"yn arddel ac yn ailddatgan pwysigrwydd S4C yn sector darlledu Cymru"

**2. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru);**

*Ychwanegu fel pwynt bwled newydd ar ddiwedd y cynnig:*

- Yn galw ar unrhyw ddeddfwriaeth newydd yn y maes hwn i ystyried yr angen am Gyngor Defnyddwyr Cyfathrebu at ddibenion rheoleiddio yng Nghymru i ategu gwaith OFCOM.

**3. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru);**

*Ychwanegu fel pwynt bwled newydd ar ddiwedd y cynnig:*

- Yn galw ar Lywodraeth y DU i lunio strategaeth, fel mater brys, sy'n anelu at wella nifer y bobl sy'n gwylio rhaglennu teledu o Gymru, gan gynnwys y posibilrwydd o drosglwyddo signalau digidol o drosglwyddyddion Mendip, Ridge Hill, Dinlle Wrygion a Winter Hill.

**4. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru);**

*Ychwanegu fel pwynt bwled newydd ar ddiwedd y cynnig:*

- Yn cydnabod pwysigrwydd cynnal marchnad ddeinamig ar gyfer gwasanaethau cyfathrebu i'n diwydiannau creadigol ac yn cydnabod y budd y mae'r sector yn dod ag ef i economi Cymru.

**Dadl Fer:** (i bara am 30 munud)
**Alun Pugh (Gorllewin Clwyd); Marwolaethau yn y Mynyddoedd – Gwella Diogelwch ym Mynyddoedd Cymru**

**Disgwylir i'r cyfarfod ddod i ben erbyn 12.35pm**

**************

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am**

**2.00pm ddydd Mawrth, 13 Chwefror 2001**

**J W Lloyd**

**Clerc y Cynulliad**